**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

David Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

12 Mawrth 2018


Annwyl David

**P-05-784 Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu – adnabyddiaeth a chefnogaeth**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 31 Ionawr 2018 ynghylch y ddeiseb a nodir uchod. Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon ar 14 Chwefror, wrth drafod ei flaenraglen waith. Gallaf gadarnhau nad yw'r Pwyllgor wedi gwneud unrhyw waith yn y maes hwn hyd yn hyn.

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cytuno ar ei flaenraglen waith ar gyfer 2017-18 ac wedi'i chyhoeddi. Byddwn hefyd yn hefyd yn gwneud gwaith craffu Cyfnod 2 mewn perthynas â Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) cyn bo hir. Felly, nid wyf yn rhagweld y bydd unrhyw gyfleoedd inni ymrwymo i unrhyw ymchwiliadau pellach yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, rydym yn adolygu blaenoriaethau ein rhaglen waith yn rheolaidd, ac rydym wedi cynnwys y materion a godwyd yn y ddeiseb hon i'w hystyried yn ddiweddarach.

Yn gywir,



Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565